

# Gwers 12 – Y Ddihangfa fawr

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Exodus 13:21; 14: 3–20

**Y** degfed pla a roes y farwol i Pharo, yn llythrennol felly. Rhoddodd pob pla gyfle i Pharo i ryddhau'r genedl, ac er iddo gytuno ar y dechrau, newidai ei feddwl bob tro, hynny yw, roedd yn herio Duw Moses. Erbyn y nawfed pla, roedd Pharo wedi cael digon a gorchmynnodd i Moses, "Dos ymaith oddi wrthyf, a gofala na fyddi'n gweld fy wyneb eto, oherwydd ar y dydd y byddi'n fy ngweld, byddi farw." (Exodus 10:29). Ond byddai Pharo'n dioddef yn enbyd am ei agwedd. Tra gallai'r naw pla cyntaf fod yn estyniad o drychinebau naturiol, y mae'r degfed yn oruwchnaturiol, gyda chanlyniadau arswydus i'r Eifftiaid.

Ar hanner nos, byddai Duw yn tramwyo'r wlad ac yn lladd pob "cyntaf-anedig yng ngwlad yr Aifft, o gyntaf-anedig Pharo ar ei orsedd hyd cyntaf-anedig y carcharor yn ei gell, a chyntaf-anedig yr anifeiliaid hefyd" (Exodus 12:9). Yn gwmni iddo byddai 'Dinistrydd', angel mae'n debyg (Exodus 12:23). Ymddengys hyn yn eithafol ar ran Duw, ond roedd wedi dangos ei amynedd mawr tuag at Pharo, a wrthododd yn barhaus i ryddhau'r Israeliaid. Cofier hefyd mai nod Duw yn arwain y genedl o'r Aifft oedd eu sefydlu yng Nghanaan er mwyn gwireddu'r addewid a roddodd i Abraham ganrifoedd ynghynt.

Cafodd yr Israeliaid gyfarwyddiadau ar gyfer amddiffyn eu hunain rhag y Dinistrydd. Roedd pob teulu i ladd oen, paentio cilbyst eu tai gyda'r gwaed, a bwyta'r cig. Pa le bynnag y gwelai waed byddai'r Dinistrydd yn mynd heibio. Erbyn y bore, roedd galaru mawr ymysg yr Eifftiaid, ac anfonodd Pharo at Moses ac Aaron a dweud – "Codwch, ewch ymaith o fysg fy mhobl, chwi a'r Israeliaid, ac ewch i wasanaethu'r ARGLWYDD yn ôl eich dymuniad" (Exodus 12:31). Roedd hyn yn drobwynt yn hanes y genedl. Y mae pennod 12 yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ynghylch sut y dylid cofio'r digwyddiad i'r dyfodol. Dethlir 'Pesach' neu Wyl y Bara Croyw hyd heddiw, i gofio am ryddhau'r genedl, o'r Aifft; chwe chan mil o ddynion heblaw gwagedd a phlant, yn dilyn cyfnod o 430 mlynedd mewn caethiwed. O hynny ymlaen byddai'r flwyddyn Israelaidd yn dechrau ym mis Nissan (Mawrth/ Ebrill).

Ansicr iawn yw llwybr yr Exodus ond bu i'r Israeliaid osgoi'r prif ffyrdd masnach gan ddilyn "Ffordd y Môr" yn arwain tua Mynydd Seinaï. Yr oedd Duw'n mynd o'u blaen "mewn colofn o niwl yn ystod y dydd i'w harwain ar y ffordd, ac mewn colofn o dân yn ystod y nos i'w goleuo" (Exodus 13:21). Pan sylweddolodd Pharo beth oedd wedi digwydd anfonodd ei filwyr i'w rhwystro rhag mynd ymhellach. Roedd yr Israeliaid wedi cyrraedd Piahiroth gyferbyn â Baal-seffon yn agos i wlypdir, môr mewndirol efallai, (Yam Suph yn yr Hebraeg). Gyda byddin Pharo'n agosáu cwynai'r bobl fwy mwy. Meddent wrth Moses, "Ai am nad oedd beddau yn yr Aifft y dygaist ni i'r anialwch i farw?".

Ond yr oedd Duw ar y blaen a dywedodd wrth Moses am estyn ei wialen "dros y môr i'w rannu er mwyn i'r Israeliaid fynd trwy ei ganol ar dir sych". Cododd Moses ei law a gwahanwyd y dyfroedd a cherddodd yr Israeliaid drosodd. Dilynwyd hwy gan yr Eifftiaid ond suddodd eu cerbydau trymion yn y gwlypdir ac fe'u boddwyd.

Pan welodd yr Israeliaid fod Duw wedi gweithredu mor nerthol i'w hachub o'r Gaethglud ac wedi dangos ei fod gyda hwy ar y daith, "daethant i'w ofni ac i ymddiried ynddo ef ac yn ei was Moses" (Exodus 14:31).

## Y Deg Pla


Dŵr y Neil yn troi'n waed (Exodus 7:14–24); Llyffaint (Exodus 8:1–8:15); Llau (Exodus 8:16–19); Pryfed (Exodus 8:20–32); Anifeiliaid marw (Exodus 9:1–7); Cornwydydd (Exodus 9:8–12); Cenllysg (Exodus 9:13–35); Locustiaid (Exodus 10:1–20); Tywyllwch dudew (Exodus 10:21–29); Marwolaeth y cyntaf-anedig (Exodus 11:1– 12:30).

## Amserlen Y Pesach

10 Nissan Dewis oen blwydd oed, difrycheulyd, a'i gadw'n ddiogel; gallai fod yn afr neu'n lo. 14 Nissan Yn hwyr y prynhawn, lladd yr anifail a thaenu gwaed yr anifail ar byst a linteli'r tai. Rhostio'r oen yn gyfan. Y teulu gyda'i gilydd i fwyta'r cig ynghyd â dail chwerw a bara croyw (dilefain). 15 Nissan Yn gynnwys yn y bore llosgi'r cig yn weddill.

## Y Pesach yn y cartref

1. Bwyta'r cig gyda pherlysiau, dip o gnau wedi eu malu a'u cymysgu mewn finegr, a phedair cwpanaid o win.
2. Yn dilyn yr ail gwpanaid o win mab yn gofyn i'w dad, "Pam mae'r noson hon yn wahanol i bob noson arall?" Y tad yn adrodd stori Deut. 26:5–11.
3. Cenir Salm 113 (neu 113–114).
4. Ar ôl y bedwaredd gwpanaid cenid Salmau 115–118.



O'r diwedd, dyma Moses a'i bobl yn gadael yr Aifft. Aethon nhw â'u holl eiddo gyda nhw.

Sawl cwpan weli di yn cuddio yn y llun yma?

Darlflen Exodus 12:31-36.

# Gwers 12 – Y ddihangfa fawr

## Croesi'r Môr Coch | Exodus 14

### Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 54



#### Gwers 12

Y ddihangfa fawr

#### BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DRÓS 7 oed

Y diahangfa fawr tud 54

#### BEIBL BACH STORI DUW

Duw'n dangos y ffordd tud 92

#### BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Dianc ! tud 32

#### BEIBL LLIW Y PLANT

Croesi'r Môr Coch tud 78

#### BEIBL NEWYDD Y PLANT

Croesi'r Môr Coch tud 43

#### BEIBL BACH I BLANT

Yr Antur Fawr tud 110

#### Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Ffarwelio (53) tud 67

Croesi'r Mor Coch (56) tud 70

#### BEIBL LLIW Y TEULU

Croesi'r Mor Coch (48) tud 37

Mae Duw yn Fawr (49) tud 37

### I Ddechrau ...

#### Gêm Croesi'r Môr Coch

Bydd angen peli meddal – neu, gall sanau wedi'u lapio'n beli yn gwneud y tro'n iawn!

Rhannwch y plant yn ddau dîm: un tîm yn Fôr Coch a'r llall yn Israeliaid. Gosodwch dîm y Môr Coch i benlinio mewn dwy res yn wynebu ei gilydd gyda'r peli. Mae'r Israeliaid yn ceisio croesi trwy'r ddwy res (y Môr Coch) heb gael eu taro gan y peli (y tonnau). Chwaraewch am amser penodol gan gyfri faint o bobl sy'n cael eu taro gan y tonnau yn ystod yr amser hwnnw. Wedyn, rhowch gyfle i'r tîm arall fod yn Fôr Coch.

#### Gêm 'Bwyta'r Môr Coch'

Bydd angen powlen o jeli coch ar bawb, gyda 'jelly baby' yn y gwaelod – does dim angen llawer o jeli ar gyfer pob person, gwnaiff dwy neu dair llwy fwrdd y tro.

Rhannwch y plant yn dimoedd. Nod y gêm yw bod y timoedd yn achub yr "Israeliaid" – y jelly babies – o'r Môr Coch – y jeli.

Gosodwch y powlenni jeli ar fwrdd ar un ochr yr ystafell â'r timoedd ar yr ochr gyferbyn. Gallwch chwarae fel ras, neu gallwch amseru'r timoedd i weld pwy ydy'r cyflymaf.

Gallwch roi llwyau i'r plant, neu gallant fwyta'r jeli heb lwy! Cofiwch gael papur sychu wrth law! Ar ôl bwyta'r jeli, byddant yn dod o hyd i'r "Israeliaid," a dylent eu codi yn eu cegau a'u cario'n ôl i'r tîm cyn eu bwyta.

### Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

#### Darlleniad â chamgymeriadau

Defnyddiwch y Beibl Lliw i Blant, tudalen 78. Hefyd, Beibl ac offerynnau taro.

Mae'n debygol fod yr hanes hwn un cyfarwydd i'r plant, beth am ei ddarllen â chamgymeriadau? Bydd angen darllen trwy'r hanes o flaen llaw a nodi pa eiriau neu gymalau y byddwch yn eu newid, e.e. Pharo = Brenin Saul; Moses = Abraham; Israeliaid = Cymry; Eifftiaid = Albanwyr; Môr = nant. Gofynnwch i'r plant wneud sŵn dŵr os clywir gair anghywir (bybl, bybl?).

Mae'n ddigon posibl y bydd rhai o'r plant yn credu bod Duw wedi bod yn gas i adael i fyddin Pharo foddi. Peidiwch â bod ofn cyfaddef nad ydym

yn gallu deall popeth yn y Beibl a'i bod hi'n iawn i ni ofyn i Dduw am Ei gymorth pan fyddwn yn ddryslyd.

## Cymhwyso

Mae Duw wedi dangos i'r Israeliaid faint y mae'n eu caru a pha mor nerthol yw Ef.

Beth oedd eu hymateb? Edrychwch am Exodus 15, adnodau 1 a 2 a'u darllen gyda'r plant.

Mae'r bobl yn canu cân i Dduw sy'n adrodd yr hanes, yn diolch i Dduw ac yn dweud pa mor anhygoel ydy Duw.

Gofynnwch i'r plant feddwl am bethau y dylen ni ddiolch i Dduw amdanynt. Efallai yr hoffech ganu cân o ddiolch gyda'ch gilydd yn defnyddio offerynnau taro, fel y gwnaeth Miriam a'r merched? (adnod 20)

## Gweddi

Bydd angen lluniau sy'n dangos pobl yn cael eu hachub, e.e. o'r môr, o glogwyn, o dŷ sydd ar dân. Hefyd, llun croes neu groes wedi'i gwneud o ddarnau o bren/brigau.

Dangoswch y lluniau i'r plant a'u trafod. Ceisiwch restru'r Gwasanaethau brys sy'n dod i 'achub' pobl o sefyllfaoedd peryglus, a chyflwyno'r gair 'Achubwr' neu 'Gwaredwr.' Atgoffwch y plant bod Moses wedi chwarae rôl 'Achubwr', yn arwain pobl Dduw o'r Aiffft a'r Pharo creulon. Dangoswch y groes i'r plant a'u hatgoffa bod Iesu wedi dod i'r byd i fod yn 'Achubwr' hefyd. Ystyr yr enw 'Iesu' yw 'Gwaredwr.' Trafodwch ystyr hyn gyda'r plant gan esbonio'n syml ein bod angen cael ein hachub o'n pechod, a dim ond Iesu sy'n gallu cael gwared â'n pechod am byth. Bu farw ar y groes er mwyn maddau i ni a'n gwared oddi wrth ein pechod.

## Cân

'Pwy sydd yma efo fi?', Y Cyntaf a'r Olaf – Curiad (Tachwedd 2008)

## Dysgu adnod

'Carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.' (Ioan 3:16)

Bydd angen yr adnod wedi'i hysgrifennu'n fawr.

Dangoswch yr adnod a'i darllen yn ofalus gyda'r plant. Defnyddiwch y symudiadau canlynol i helpu'r plant ddysgu'r adnod:

Carodd – dwy law ar eich calon

Duw – pwyntio i fyny

y byd – dwy law i wneud siâp crwn

gymaint – estyn dwylo allan i'r ochr cyn belled â phosib

nes iddo roi – dwy law gyda'i gilydd a'u hestyn ymlaen fel be baech yn rhoi rhywbeth i rywun

ei unig Fab – ystum fel siglo babi yn eich breichiau

Ioan pennod 3 – curo'r llawr gyda throed dair gwaith

Adnod 16 – dangos deg bys, wedyn chwe bys.

Beth am baratoi siâp calon gyda'r adnod i bawb fynd adref? Neu roi siâp calon i bawb a'u gynorthwyo i gopio'r adnod yn ofalus.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Yr Israeliaid yn croesi'r Môr Coch tud. 20

### Gwerslyrau Golau ar y Gair

Moses: Gadael yr Aiffft

### Tafleenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres B – Moses

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 11: Y Daith i Wlad yr Addewid

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 280

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 12: Yr Antur Fawr

### Powerpoint ar wefan visionforchildren.co.uk

Hanes Moses

### Llyfrau Stori

Ble mae Moses?

Moses yr Arweinydd

Y Ddihangfa Anhygoel

Anturiaethau Moses

Moses a'r Daith Fawr

Hwyl Jigso – Moses yn arwain ei bobl

